**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/00987/22

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd,
y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith
Llyr.Gruffydd@senedd.cymru

25 Mai 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Ebrill ynghylch ein gwaith ar fioamrywiaeth, llywodraethu amgylcheddol, a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Rwy'n hapus iawn i gynorthwyo gwaith y Pwyllgor a gweler isod fy ymatebion i'ch cwestiynau:

1. **A allwch egluro a fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn COP15, ac os felly, sut?**

   Rydym yn aros am gadarnhad ynghylch manylion ail ran COP15 yn ddiweddarach eleni. O'r herwydd, mae datblygiad y cynlluniau ar gyfer cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn y gynhadledd yn dal i fynd rhagddo. Bydd y ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli yn y gynhadledd yn dibynnu ar sefyllfa Covid-19 yn Kunming, Tsieina adeg y gynhadledd. Rwy'n gobeithio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y cynlluniau wedi'u cwblhau.

2. **A allwch amlinellu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 a sut mae'n ceisio dylanwadu ar ganlyniad COP15?**

   Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nod y fframwaith i ysgogi camau gweithredu brys a thrawsnewidiol gan Lywodraethau a phob rhan o gymdeithas - gan gynnwys pobl frodorol a chymunedau lleol, cymdeithas sifil a busnesau - i gyflawni'r canlyniadau y mae'n eu nodi yn ei weledigaeth, ei chenhadaeth, ei nodau a'i thargedau. Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at amcanion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD), ei brotocolau, a chytundebau, prosesau ac offerynnau amlochrog eraill sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth.

   Rydym wedi cyflwyno safbwynt Cymru'n bendant wrth Defra am ddrafft diweddaraf fframwaith bioamrywiaeth byd-eang 2020 er mwyn helpu i ddatblygu safbwynt y DU. Bydd hyn yn llywio trafodaethau ym mhedwerydd cyfarfod y Gweithgor, a gynhelir yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nairobi ar 21 - 26 Mehefin, lle mai'r nod yw cytuno ar destun mwy terfynol cyn ei fabwysiadu yn rhan 2 o gynhadledd COP 15 yn ddiweddarach eleni.

Bydd atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2030 yn gofyn am gydweithrediad ar bob lefel. Mae colli bioamrywiaeth yn cael ei yrru gan ffactorau lleol, is-genedlaethol, cenedlaethol a byd-eang, felly mae angen ymatebion hefyd ar bob graddfa ac ar draws pob sector. Rydym wedi ymrwymo i adfer bioamrywiaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd mewn amgylcheddau daearol a morol.

Dyna pam mai ffocws yr Ymarfer Trylwyr ar fioamrywiaeth yw llywio'r rhaglen waith sy'n sicrhau ein bod yn cyrraedd Targed 3 (y targed '30 erbyn 30'), yn ogystal â thargedau eraill a amlinellir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Rydym am ddangos yn weithredol fod Cymru'n genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac sy'n barod i ymateb i her yr argyfyngau natur a hinsawdd ar y cyd.

3. **A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at yr ymarfer trylwyr, gan gynnwys aelodau'r grŵp a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn?**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr ymarfer trylwyr ar 12 Mai ac rwy'n hapus i rannu'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Grŵp Craidd gyda chi. Rydym yn bwriadu cwblhau'r ymarfer trylwyr tua diwedd mis Mehefin.

4. **Dywedoch wrthym fod "swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chymheiriaid eraill yn y DU drwy Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ddatblygu set gyffredin o egwyddorion". A allwch roi rhagor o fanylion am y gwaith hwn, gan gynnwys diben y set gyffredin o egwyddorion, ac a fyddant yn cael eu defnyddio a sut cânt eu defnyddio i lywio targedau bioamrywiaeth statudol a llywio polisïau yn y dyfodol?**

Mae swyddogion yn gweithio gyda chymheiriaid eraill yn y DU drwy Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad a'r JNCC ar feysydd sy'n ymwneud ag uchelgais a rennir neu ddiben cyffredin ar gyfer bioamrywiaeth ar lefel y DU; i gwrdd ag agenda drawsnewidiol newydd; lleihau faint o fioamrywiaeth sy'n cael ei golli; a galluogi cydweithio ar feysydd sy'n elwa ar gamau gweithredu ar draws y DU. Bwriad yr egwyddorion hyn yw helpu llywodraethau i gydweithio â'i gilydd ac er eu bod yn gyson â chyfrifoldebau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru mewn meysydd polisi datganoledig, ni allant gymryd eu lle. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar yr egwyddorion; byddaf yn eu rhannu â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

5. **Nodwn eich bod wedi llunio canllawiau ar yr egwyddorion amgylcheddol i sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori mewn polisïau a phenderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru. A allwch egluro a yw'r canllawiau ar gael i'r cyhoedd?**

Nid yw'r canllawiau ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd oherwydd fe'u bwriedir ar gyfer llunwyr polisi mewnol. Mae gwaith ar gyhoeddi'r canllawiau at ddibenion gweithredol a hyfforddiant ynddynt yn mynd rhagddo.

6. **A allwch roi amserlen ddangosol ar gyfer yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol?**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol parhaol. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i greu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol; bydd cyhoeddiad ar flynyddoedd y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol yn cael ei wneud gan y Prif Weinidog maes o law.

7. **A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol, gan gynnwys yr amserlen ddangosol rydych yn gweithio oddi mewn iddi ar gyfer cyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol diwygiedig?**

   Ein Polisi Adnoddau Naturiol sy’n pennu’r blaenoriaethau o ran atebion sy’n seiliedig ar natur, ynni adnewyddadwy a defnydd effeithlon o adnoddau, a gweithredu ar sail lle. Mae'r blaenoriaethau hyn yn dal yn berthnasol i fynd i'r afael â'r argyfyngau bioamrywiaeth a hinsawdd. Byddaf yn defnyddio’r ymarfer trylwyr ar fioamrywiaeth a’r argymhellion a ddaw ohono i benderfynu ar yr amserlen ar gyfer adolygu’r polisi.

   Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth – Cylch Gorchwyl**

## Diben

Er mwyn datblygu cyfres o gamau gyd-weithredol a ellir eu gymryd ar unwaith i gyflawni nod '30 erbyn 30' y CBD, gan gydnabod y galluoedd sydd gennym yng Nghymru ac adlewyrchu ein dyletswyddau o dan Ddeddfau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Amgylchedd.

Y targed '30 erbyn 30':

*'Ensure that at least 30 per cent globally of land areas and of sea areas, especially areas of particular importance for biodiversity and its contributions to people, are conserved through effectively and equitably managed, ecologically representative and well-connected systems of protected areas and other effective area-based conservation measures, and integrated into the wider landscapes and seascapes.'*

## Bydd yr archwiliad dwfn yn ystyried y canlynol:

- Sut y gall y rhwydwaith presennol o safleoedd gwarchodedig ar y tir, y môr a'r dŵr (SoDdGA, GNG, ACA, AGA a safleoedd Ramsar gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) gyflawni'n well 30 erbyn 30?
- Sut y gall 'Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal - Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur' gael eu sefydlu a chyfrannu at 30 erbyn 30?
- Sut y gallwn sicrhau bod ein safleoedd gwarchodedig wedi'u cysylltu'n dda ac yn rhannau integredig o'r tir a morweddau ehangach?
- Sut y gallwn fynd i'r afael a gwyrdroi'r pwysau allweddol a'r hyn sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth?
- Sut y gallwn gyflawni rhaglen weithredu dros y ddegawd nesaf? Pa ffactorau galluogi sydd eu hangen gan gynnwys adnoddau a sut y gallwn sicrhau bod cynnydd yn cael ei gyflawni drwy waith monitro a gwerthuso effeithiol?
- Pwy yw'r cyfranwyr allweddol (cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a'r gymdeithas yn ehangach) a sut y maent oll yn cefnogi ac yn cyfrannu at gyflawni'r targed?

## Aelodaeth o'r grŵp

Bydd grŵp craidd bach o unigolion a all feddwl yn gritigol ynghlwm wrth yr archwiliad dwfn, o dan arweiniad y Gweinidog Newid Hinsawdd. Caiff yr ysgrifenyddiaeth ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau wedi'u dewis ar sail eu harbenigedd a'u profiad unigol ac o'r herwydd ni fydd modd trefnu bod cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd yn eu lle heb gytundeb ymlaen llaw gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Ceri Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sharon Thompson | RSPB Cymru |

| | |
|---|---|
| Richard Unsworth | Project Seagrass a Phrifysgol Abertawe |
| Paul Sinnadurai | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Tim Pagella | Prifysgol Bangor |
| Phillippa Pearson | Dŵr Cymru |
| Steve Ormerod | Prifysgol Caerdydd - Ecoleg |
| Richard Cowell | Prifysgol Caerdydd – Daearyddiaeth a Chynllunio |
| Katie Medcalf | Environment Systems |
| Hilary Kehoe | Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) |
| Mike Elliott | Prifysgol Hull – Gwyddoniaeth Morydol ac Arfordiroedd |

Bydd cyfarfodydd penodedig ac ar wahân hefyd yn cael eu cynnal ynghylch pynciau lle y mae angen arbenigedd penodol, er enghraifft yr amgylchedd morol. Bydd yr hyn a fydd yn deillio o'r cyfarfodydd hyn yn cyfrannu at waith grŵp yr archwiliad dwfn, gan ddarparu ystod ehangach o safbwyntiau.

**Ffyrdd o Weithio**

Bydd y rhain yn  cyd-fynd â'r 5 Ffordd o Weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Cydweithio ar draws sefydliadau a chyda rhanddeiliaid eraill ac is-grwpiau bord gron;
- Ceisio sicrhau atebion hirdymor integredig ac ystyried canlyniadau tymor byr, canolig a hir camau gweithredu;
- Gweithio gydag uniondeb a herio ein gilydd yn barchus i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol/yn well.
- Dylid cyfiawnhau holl allbynnau ac argymhellion y grŵp hwn drwy gyfeirio at sylfaen dystiolaeth gadarn neu dynnu sylw at gyfyngiadau'r dystiolaeth lle nad yw hyn ar gael.

**Amseru**

Bydd yr ymarfer yn dechrau ar **12 Mai 2022**, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd hyd ddiwedd Mehefin 2022. Cyhoeddir canlyniadau'r adolygiad mewn Datganiad Gweinidogol cyn toriad yr haf.

Gall y grŵp gyfarfod yn achlysurol yn dilyn y datganiad hwn os nodir camau gweithredu sy'n gofyn am waith tymor hwy.

**Cyfathrebu**

Cynhelir trafodaethau yn y grŵp yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw gyfathrebu am ganlyniad y trafodaethau oni bai y cytunir ar hynny yn gyntaf gyda Llywodraeth

Cymru. Caiff papurau cyfarfodydd eu trin fel dogfennau Swyddogol Sensitif oni bai y nodir fel arall a byddant fel rheol yn cael eu dosbarthu wythnos cyn pob cyfarfod.

Mae’n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi’r Cylch Gorchwyl hwn ar unrhyw adeg. Cyhoeddir Datganiad Ysgrifenedig ar ddiwedd yr archwiliad dwfn. Caiff nodiadau pob cyfarfod eu dosbarthu i'r grŵp ond ni chânt eu cyhoeddi'n ffurfiol. Bydd trawsgrifiadau o bob cyfarfod yn cael eu gwneud at ddibenion llunio nodiadau cyfarfodydd ond byddant yn cael eu dinistrio’n fuan wedyn.